# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 28 Hydref 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o effaith ariannol Dyfarniad Grogan a beth yw amcangyfrif y gost ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol? (WAQ52648)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am sut mae'r Gyllideb Ddrafft wedi ystyried Dyfarniad Grogan? (WAQ52649)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Amcangyfrifir gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) y bydd y rhagolwg twf presennol ar gyfer gwariant gofal iechyd parhaus y GIG £82 miliwn ychwanegol yn uwch na gwariant 2007-08. Yn ogystal, mae BILlau yn rheoli effaith barhaus y cynnydd o £55 miliwn a brofwyd ganddynt rhwng 2006-07 a 2007-08. Nid yw'r amcangyfrifon fesul BILl unigol ar gael eto.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn caniatáu i'r £100 miliwn y flwyddyn a neilltuwyd ar gyfer gofal iechyd parhaus eleni i barhau i 2009-10 a 2010-2011. Ychwanegwyd hanner ohono i ddyraniadau yn ôl disgresiwn BILl yn 2008-09 i ymateb i'r pwysau twf a bydd hyn yn parhau ar gyfer 2009-10 a 2010-2011. Caiff y gweddill ei ddyrannu'n bennaf ar gyfer datblygiadau strategol o fodelau gofal newydd i gyflwyno newid, yn unol â'r cyngor a gâf gan y Grŵp Strategol Gofal Iechyd Parhaus y GIG o randdeiliaid a luniwyd gennyf.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa bryd y cafodd hi neu ei swyddogion drafodaeth ddiwethaf â'r Adran Iechyd am ailasesu unrhyw gyffur Dosbarth-M? (WAQ52650)

**Edwina Hart:** Nid wyf i na'm swyddogion wedi trafod ailasesu unrhyw gyffur Dosbarth M gyda'r Adran Iechyd. Mae hyn yn fater iddynt hwy a Chymdeithas Cynhyrchwyr Meddyginiaethau Generig Prydain, sy'n cynrychioli'r diwydiant gweithgynhyrchu fferyllol generig ym Mhrydain, sy'n cydnabod bod gan bob un ran i'w chwarae wrth greu a chynnal marchnad feddyginiaeth generig gystadleuol a bywiog yn y DU.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau cost y setliad cenedlaethol o ran y contract fferylliaeth gymunedol a sut mae'r gost hon yn cael ei thalu? (WAQ52651)

**Edwina Hart:** Mae'r Pwyllgor Trafod Gwasanaethau Fferyllol (PSNC) wedi cytuno i hwb ychwanegol o £280 miliwn ychwanegol gan yr Adran Iechyd i'r contract ar gyfer 2008/09. Mae'r swm hwn yn cynnwys £150 miliwn o gyllid 'newydd' gyda £130 miliwn mewn arbedion Categori M ychwanegol ar gostau cyffuriau. Caiff ei dalu dros y cyfnod o fis Hydref 2008 i fis Mawrth 2009 i sichrau cyllid digonol ar gyfer y flwyddyn gyfan. Yng Nghymru, mae hyn yn gyfystyr â chynyddu cyllid y contract tua £18.4 miliwn (felly cynyddu ein lefel bresennol o gyllid o £19.3 miliwn i £37.7 miliwn), ond mae hyn yn dibynnu'n llwyr ar lefel yr eitemau a ddosberthir a gallai godi mwy byth.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwlâu gofal dwys newyddenedigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Nevill Hall? (WAQ52645)

**Edwina Hart:** Mae'r ddarpariaeth gwelyau gofal dwys newyddenedigol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn gweithredu dros dro ar statws dibyniaeth fawr Lefel 2 ar hyn o bryd. Nod y mesur dros dro hwn yw sicrhau diogelwch cleifion oherwydd yr anhawster o ran recriwtio staff meddygol gradd ganolig, sy'n broblem genedlaethol.

Pennwyd statws dibyniaeth Lefel 2 i Ysbyty Tywysog Siarl. Caiff unrhyw fabanod sydd angen cyfleusterau Lefel 3 eu trosglwyddo i Gaerdydd ac Ysbyty Brenhinol Gwent.
Pennwyd Lefel 2 i Ysbyty Nevill Hall ac ar y cyd ag Ysbyty Brenhinol Gwent, mae ganddo seilwaith sy'n helpu merched a roddodd enedigaeth yn Nevill Hall i gael gwelyau Lefel 3 yn Ysbyty Brenhinol Gwent os oes eu hangen.

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad rhwydwaith drosglwyddo newyddenedigol yng Nghymru? (WAQ52646)

**Edwina Hart:** Ymgynghorais â chlinigwyr yn gynharach eleni am argymhellion adolygiad Comisiwn Iechyd Cymru 2005 o wasanaethau newyddenedigol. Nodwyd bod sefydlu system ar gyfer cludo babanod sâl yn y gogledd a'r de yn un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Rwyf wedi clustnodi £2 miliwn o gyllid o 2009-10 ymlaen yn y gyllideb ddrafft i wella gwasanaethau newyddenedigol ac mae cyllid ar gael i Gomisiwn Iechyd Cymru eleni ddechrau gwaith i wella gwasanaethau newyddenedigol. Caiff grŵp rhanddeiliaid cludiant newyddenedigol ei sefydlu i sicrhau bod trefniadau cludo diogel ar waith ac i gytuno ar drefniadau tymor hwy yn y gogledd a'r de.

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael o ran diffyg nyrsys newyddenedigol yng Nghymru? (WAQ52647)

**Edwina Hart:** Rwy'n ymwybodol o'r prinder nyrsys newyddenedigol a gofnodir yng Nghymru. Trafodwyd y mater hwn yn fy nghyfarfod â'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo rhaglenni adsefydlu ym maes cyffuriau ac alcohol yng Nghymru? (WAQ52632)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Mae ein strategaeth camddefnyddio sylweddau newydd 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', yn nodi ein cynllun deng mlynedd ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru gan gynnwys cyfeiriadau penodol at ein cynigion ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau adsefydlu cyffuriau ac alcohol.
Eleni ac yn ystod y ddwy flynedd nesaf caiff y Strategaeth hon ei chefnogi gan y £12.6 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd yng nghyllideb y llynedd a'r £3.2 miliwn ychwanegol yng nghynigion cyllideb drafft eleni.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i CAIS Cyfyngedig? (WAQ52633)

**Brian Gibbons:** Yn 2008-09, mae CAIS yn cael dros £1.6 miliwn o gyllid drwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru a Byrddau Iechyd Lleol. Cânt gyllid uniongyrchol o £178,000 y flwyddyn hefyd ar gyfer darparu'r Cynllun Cymorth Trosiannol yn y gogledd.

Yn ogystal, mae fy swyddogion yn gweithio gyda CAIS fel y corff arweiniol ar gyfer consortiwm darparwyr y sector gwirfoddol yng Nghymru, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.